**Lle, Seilwaith a Datblygu Economaidd**
Uned Gofal Strydoedd / DGFfASN
Bloc 1, Parc Myrddin, Waun Dew, Caerfyrddin, SA31 1HQ
**Ffôn: (01267) 224507/08/09**
**E-bost:** gofalstrydoedd@sirgar.gov.uk

**Place, Infrastructure & Economic Development**
Street Care / NRASWA Section
Block 1, Parc Myrddin, Richmond Terrace, Carmarthen, SA31 1HQ
**Tel: (01267) 224507/08/09**
**E-mail:** streetcare@carmarthenshire.gov.uk

**DEDDF PRIFFYRDD 1980: Adran 139**
**DEDDF RHEOLEIDDIO TRAFFIG FFYRDD 1984: Adran 65**
**DEDDF FFYRDD NEWYDD A GWAITH STRYD 1991: Adran 59**

# CANIATÂD I OSOD SGIP ADEILADWYR AR Y BRIFFORDD

## AMODAU

Trwy hyn mae **Cyngor Sir Caerfyrddin** yn rhoi caniatâd i'r ymgeisydd osod sgip adeiladwyr ar y briffordd yn y lleoliad a nodir yn y caniatâd, yn unol ag Adran 139 o Ddeddf Priffyrdd 1980 ac Adran 65 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, yn unol â'r amodau canlynol:

1. Bydd pob sgip yn cael ei osod ar y briffordd yn y lleoliad a nodir yn y drwydded, ac yn cael ei osod fel bod yr ochrau hiraf yn gyfochrog ag ymyl y ffordd gerbydau ac mor agos at ymyl y ffordd gerbydau ag sy'n rhesymol ymarferol, er mwyn sicrhau nad yw'n amharu ar ddraeniad dŵr arwyneb y briffordd nac yn rhwystro mynediad i unrhyw dwll archwilio neu gyfarpar unrhyw ymgymerwr statudol neu Gyngor Sir Caerfyrddin.
2. Bydd pob sgip neu grŵp o sgipiau, tra ar y briffordd, yn cael ei farcio, ei warchod a'i oleuo yn unol â'r gofynion canlynol:
    a) Rhaid paentio pen pob ymyl (hynny yw, ochrau'r sgip sy'n wynebu'r traffig i'r ddau gyfeiriad pan fydd y sgip yn cael ei leoli, fel y nodir yn yr amod uchod) yn felyn, a rhaid gosod streipiau fflwroleuol coch bras a streipiau melyn adlewyrchol croeslinol ar hyd ochr allanol pob pen, sy'n amlwg i draffig, sy'n cydymffurfio â rheoliadau Sgipiau Adeiladwyr (Marcio) 1984 (OS 1984 Rhif 1933). Rhaid sicrhau bod y paent a'r stribyn o ddeunydd yn lân bob amser;
    b) Bydd pob sgip yn cael ei warchod gan o leiaf pedwar côn traffig a osodir ar y ffordd gerbydau mewn llinell letraws ar ochr allanol y sgip. Pan osodir dau neu fwy o sgipiau mewn rhes, fel nad yw'r pellter rhwng sgipiau cyfagos yn fwy na 2 fetr, bydd y rhes yn cael ei gwarchod fel pe bai'n un sgip;
    c) Yn y nos (hynny yw, rhwng hanner awr ar ôl machlud yr haul a hanner awr cyn y wawr) bydd lamp yn cael ei gosod yn erbyn neu ynghlwm wrth bob cornel o'r sgip neu ar gorneli'r rhes o sgipiau lle mae dau neu'n rhagor o sgipiau wedi cael eu gosod mewn rhes ac nid yw'r pellter rhwng sgipiau cyfagos yn fwy na 2 fetr, a bydd hefyd yn cael eu rhoi rhwng pob côn a'r nesaf. Bydd lampau yn cydymffurfio â Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig.
    d) Mae'n amod o'r caniatâd hwn yw bod yr holl gonau a lampau angenrheidiol yn cael eu darparu ar gyfer defnydd y cwsmer gan berchennog y sgip a'u bod i gyd mewn cyflwr da.
    e) Mae'n rhaid i berchennog y sgip sicrhau bod y conau a'r golau angenrheidiol yn cael eu rhoi yn eu lle ar unwaith ar ôl i'r sgip gael ei osod ar y briffordd.
    f) Pennod 8 o'r Llawlyfr Arwyddion Traffig a'r Côd Ymarfer "Diogelwch Gwaith Stryd a Gwaith Ffordd".

3. Pan fydd mwy nag un sgip ar y briffordd ar unrhyw un adeg, bydd y sgipiau yn cael eu gosod mor agos â phosibl at ei gilydd, ond heb achosi rhwystr i unrhyw safle oni bai y cafwyd caniatâd gan breswylydd y safle hwnnw.
4. Ni fydd unrhyw sgip, pan fydd ar y briffordd, yn cynnwys unrhyw ddeunydd fflamadwy, ffrwydrol, gwenwynig neu beryglus neu unrhyw ddeunydd sy'n debygol o bydru neu'n debygol o fod yn niwsans i ddefnyddwyr y briffordd.
5. Ni fydd unrhyw sgip yn cael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel bod ei gynnwys yn disgyn ar y briffordd, neu fod llwch o gynnwys y sgip yn cael ei chwythu allan pan fydd ar y briffordd.
6. Bydd pob sgip yn cael ei symud i'w wagio cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ac, mewn pob achos, dim mwy na dau ddiwrnod gwaith ar ôl iddo gael ei lenwi.
7. Yn dilyn y caniatâd hwn, ni fydd unrhyw sgip yn aros ar y briffordd ar ôl i gyfnod y caniatâd hwn ddod i ben.
8. Bydd yr holl ddeunydd a roddir ym mhob sgip yn cael ei waredu'n briodol a bydd y briffordd lle y gosodwyd y sgip neu'r sgipiau yn cael ei chadw'n lan ac yn daclus pan ddaw'r caniatâd hwn i ben.
9. Os yw llai na 5 metr o'r ffordd gerbydau ar gael ar ôl gosod y sgip, mae'n rhaid defnyddio rheolaeth traffig. Yn unol â'r Rheoliadau Traffig a'r Cyfarwyddiadau Cyffredinol, rhaid rhoi gwybod i'r Awdurdod Priffyrdd am y defnydd o Arwyddion Traffig Symudol.
10. Ni ddylai sgip fod yn fwy na 5 metr o hyd a 2 fetr o led.

Sylwer:

a) Mae Adran 139(4) o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn ei wneud yn ofynnol i berchennog sgip adeiladwyr sydd wedi'i osod ar y briffordd sicrhau bod y sgip yn cael ei oleuo yn briodol yn ystod oriau tywyllwch, ei fod wedi'i farcio'n glir ac yn annileadwy gydag enw'r perchennog a'i rif ffôn neu gyfeiriad, ei fod yn cael ei symud cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl iddo gael ei lenwi, a chydymffurfir â phob un o amodau caniatâd yr awdurdod priffyrdd. Os cafwyd y perchennog yn euog o drosedd o dan yr is-adran, gallai fod yn atebol i ddirwy nad yw'n fwy na £1000.

b) Mae Adran 139(10) o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn nodi na ddylai unrhyw beth yn yr adran cael ei gymryd fel caniatâd i greu niwsans neu berygl i ddefnyddwyr priffordd. Nid yw ychwaith yn golygu bod awdurdod priffyrdd sydd wedi rhoi caniatâd o dan yr adran yn atebol am unrhyw anaf, difrod neu golled sy'n deillio o bresenoldeb y sgip ar briffordd y mae'r caniatâd yn berthnasol iddo.

c) Mae Adran 140 o Ddeddf Priffyrdd 1980 yn rhoi grym i awdurdod priffyrdd neu swyddog yr heddlu ei gwneud yn ofynnol i gael gwared ar sgip adeiladwyr sydd ar y briffordd neu ei ail-leoli, er iddo gael ei osod yn unol â chaniatâd yr awdurdod priffyrdd, i adennill oddi wrth y perchennog y gost o symud neu ail-leoli'r sgip, ac i gael gwared ar sgip nad yw'n cael ei gasglu gan ei berchennog. Gallai methu â chydymffurfio â chais i symud neu ail-leoli sgip o dan yr adran arwain at ddirwy nad yw'n fwy na £50.

d) Mae'r rheoliadau ynghylch lampau ffordd yn Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig, yn cynnwys y rheoliad bod lampau yn dangos golau ambr.

e) Mae'n rhaid i ddeiliad y drwydded (y cwmni neu'r person sy'n bwriadu gosod sgip adeiladwyr) gael ei gynnwys yn yr Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus a ddylai fod ar gael i'w archwilio; a dylai'r yswiriant fod yn £10 miliwn o leiaf; Mae'n rhaid i'r fath yswiriant indemnio'r awdurdod priffordd rhag ac yn erbyn yr holl gamau gweithredu, hawliadau, colledion a threuliau o ran colli bywyd, anaf personol neu ddifrod i eiddo, ni waeth sut yr achoswyd hynny, yn deillio o bresenoldeb sgip adeiladwyr.